Ysgol y Garnedd
Bangor

30 Tachwedd, 2015

Annwyl Riant,

Eleni mae disgyblion blwyddyn 5, wedi penderfynu creu Calendrau Ysgol i'w gwerthu yn Ffair Nadolig yr ysgol ar nos Iau 17eg o Ragfyr. Bydd pob dosbarth (ac eithrio plant Meithrin) yn cynrychioli'r gwahanol fisoedd ac mae thema gwahanol ar gyfer pob mis.

Byddwn yn tynnu'r lluniau ar **Ddydd Mawrth, 8fed o Ragfyr.** Gofynnwn yn garedig i'ch plentyn wisgo'r dillad y bydd ei ddosbarth o/hi yn ei gynrychioli ar y diwrnod hwn (neu ddod â dillad hafaidd i'r ysgol mewn bag).

Mis	Dosbarth	Thema
Ionawr	Mrs Gash (Derbyn)	Santes Dwynwen – gwisg ysgol neu ddillad coch.
Chwefror	Mrs Edwards (Bl. 1 a 2)	Crys rygbi Cymru neu wisg Cymru
Mawrth	Mrs Owen (Derbyn)	Dydd Gŵyl Ddewi – gwisg ysgol neu wisg Gymreig.
Ebrill	Mrs Elis (Bl.1 a 2)	Y Pasg – Lliw melyn neu wyn
Mai	Mr Llewelyn (Bl.5 a 6)	Eisteddfod yr Urdd – gwisgo dillad coch, gwyn neu wyrdd.
Mehefin	Mrs Farrell Jones (Bl.3 a 4)	Pêl droed Euro 2016 – Gwisg Pêl droed Cymru neu wisg coch.
Gorffennaf	Mr Griffith (Bl.5 a 6)	Ffermwyr – gwisgo fel ffermwr (cap stabl, crys siec, welis, ayyb).
Awst	Mrs Thomas (Bl.1 a 2)	Haf – sbectol haul, crys-t a siorts/sgert.
Medi	Mrs Dwyfor (Derbyn)	Dechrau'r flwyddyn ysgol – gwisg ysgol.
Hydref	Mr Evans (Bl.3 a 4)	Yr Hydref – gwisg ysgol neu ddillad oren, melyn neu frown.
Tachwedd	Miss Rigby (Bl. 5 a 6)	Noson Tân Gwyllt – gwisg ysgol neu ddillad lliwgar. Het, sgarff a menig.
Rhagfyr	Mrs Jones (Bl.3 a 4)	Nadolig –Siwper Nadolig neu dinsel

Cost y calendr fydd £4.00 ac fe'u gwerthir yn y Ffair Nadolig. Gellir archebu calendrau ar y noson hefyd os bydd angen.

Diolch ymlaen llaw i chi am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Mrs Farrell Jones